

Astudiaeth achos: Defnydd o'r grant dysgu proffesiynol ychwanegol yn 2018/19

Cyd-destun a chefnidir

Yr ysgol

Ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yng Ngwynedd yw Ysgol Tregarth yn ac mae'n rhan o gonsortium GwE, Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Gogledd Cymru. Mae 104 o ddysgwyr ar gofrestr yr ysgol: mae 12.1 y cant yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim (FSM) ac mae gan 24% y cant anghenion dysgu ychwanegol (ADY).

Arweinwyr dynodedig ac aelodau o staff addysgu

Mae gan Ysgol Tregarth ddau arweinydd penodedig, pedwar o athrawon amser llawn yn ogystal â chwech cynorthwydd addysgu.

Swm y grant dysgu proffesiynol ychwanegol

Cafodd yr ysgol £3,790 ar gyfer y cyfnod 2018/19.

Sut y defnyddiwyd y grant ychwanegol

Defnyddiodd Ysgol Tregarth y grant ychwanegol i ddatblygu dysgu proffesiynol ar bob lefel o fewn y strwythur staffio.

Nododd Llinwen Jones, Pennaeth Ysgol Tregarth:

'Mae'r ethos o ddatblygu, dysgu a gwella yn barhaus yn rhan annatod o fywyd ac arferion pob dydd yr ysgol.'

Mae'r ysgol wedi ymrwymo yn llwyr i ddatblygu fel sefydliad sy'n dysgu. Mae'r grant wedi bod yn fodd effeithiol i ffocysu ar elfennau sydd wedi eu hadnabod fel meysydd i'w datblygu yn dilyn arolwg Llywodraeth Cymru 'Ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu.'

Mae'r ysgol wedi canolbwyntio yn benodol ar y canlynol.

Sefydlu diwylliant o ymchwilio, archwilio ac arloesi i baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd.

Meithrin dulliau o ddysgu a chydweithio fel tîm ymysg staff.

Hyrwyddo a chefnogi dysgu proffesiynol parhaus i'r holl staff.

Mae'r grant wedi bod yn werthfawr i'r ysgol wrth:

- ddatblygu sgiliau arweinyddiaeth staff
- ariannu prosiect ysgol gyfan i ddatblygu gallu'r staff (addysgu a chymorth) i fyfyrion ar ei arferion yn unol â gofynion y safonau dysgu proffesiynol
- cryfhau gallu'r ysgol i hunanwella yn barhaus ynghyd â datblygu ymhellach ethos agored
- rhyddhau staff i fynychu hyfforddiant sy'n cefnogi'r daith o baratoi tuag at y cwricwlwm newydd
- rhyddhau staff addysgu a chymorth i ymweld ag ysgolion eraill a chydweithio gyda nhw
- fuddsoddi mewn plattform i ddewis elfen benodol o addysgeg i'w gwerthuso, dadansoddi a chynllunio ar ei chyfer er mwyn ei gwella
- sefydlu timau ymchwil gweithredol – asesu ar gyfer dysgu a meddylfryd o dwf.

Ychwanegodd y Pennaeth:

'Mae cyfleoedd i gydweithio gydag ysgolion eraill wedi profi i fod yn ddatblygiad dysgu proffesiynol gwerthfawr a phwerus gan alluogi symud ysgol Tregarth yn ei blaen wrth baratoi ar gyfer y newidiadau sydd ar y gweill.'

Effaith y grant ar gydweithwyr ar draws yr ysgol

Staff cymorth

O ganlyniad i dderbyn hyfforddiant Continua Dysgu i staff cymorth a gweithredu mewn dull myfyriol, mae gan aelodau o staff bellach ddealltwriaeth dyfnach o'r hyn sy'n ddisgwylidig ganddynt wrth eu gwaith. Maent wedi datblygu eu gallu i hunanfyfyrion ac arfarnu eu harferion dyddiol gan adnabod y camau nesaf er mwyn datblygu ymhellach o fewn eu rôl.

Sylwodd y Pennaeth:

'Mae hyn wedi arwain at staff yn cyflawni ei rôl yn fwy effeithiol. Braff oedd cael staff yn datgan diddordeb mewn ymrwymo i raglenni hyfforddiant pellach.'

Staff addysgu

Mae pob aelod o staff addysgu wedi manteisio ar y defnydd o'r Continua Dysgu fel arf i fyfyrion ar ei arferion. Mae hyn wedi annog cydweithio agos, gyda staff yn manteisio ar arbenigedd a chryfderau eraill i ddatblygu ei arfer ei hunan.

Yn ôl y Pennaeth:

'Mae cael y cyfle i fynychu hyfforddiant Cwricwlwm i Gymru, cysgodi, arsylwi ac ymweld ag ysgolion arweiniol wedi arfogi'r staff gyda'r sgiliau ar gyfer arbrosi a threialu dulliau arloesol o dysgu ac addysgu.'

Arweinyddiaeth

Mae pob aelod o staff wedi cael y cyfle i arwain cyfarfod staff yn dilyn hyfforddiant neu weithgaredd dysgu proffesiynol. Mae'r broses wedi arwain at aelodau llai profiadol neu lai hyderus o staff yn gwneud pethau sy'n llai cysurus iddynt.

Ychwanegodd y Pennaeth:

'Mae cyfle i rannu ac arwain fel hyn yn sicrhau bod y staff yn cael profiadau a chyfleoedd i arwain eraill.'

Effaith y grant ar ddysgwyr

Yn ôl yr ysgol mae'r dull gweithio o ran dysgu proffesiynol i holl staff yr ysgol wedi bod yn effeithiol iawn sy'n amlwg o'r effaith gadarnhaol ar y dysgu a'r addysgu.

Dyma oedd rhai o'r prif manteision i ddysgwyr Ysgol Tregarth.

Adnabod y camau nesaf yn eu dysgu yn hyderus

Cael profiadau dysgu cyfoethog ac arloesol yn unol â'r pedwar diben

Datblygu dysgwyr annibynnol, hyderus

Gwersi a ddysgwyd am ddysgu proffesiynol i'w cymhwyso ar draws yr ysgol

Nododd yr ysgol y pwyntiau allweddol isod.

- Mae cydweithio, cysgodi ac arsylwi yn ffyrdd pwerus o ddatblygu dysgu proffesiynol.
- Mae'n bwysig rhoi cyfle i staff adrodd yn ôl yn dilyn unrhyw ddysgu proffesiynol.
- Rhaid cynllunio ar gyfer ymgorffori dysgu proffesiynol yn arferion yr ysgol yn gyson ar bob lefel y strwythur staffio.
- Buddsoddi ymhellach mewn datblygu diwylliant o ymchwilio ac arbrofi drwy ddatblygu ymhellach timau ymchwil gweithredol.

Gwersi a ddysgwyd am ddysgu proffesiynol i'w rhannu ag ysgolion eraill

Dyma gyngor gan yr ysgol ynglŷn â'r gwersi mwyaf a ddysgwyd.

- Mae'n bwysig cynllunio gwariant yn effeithiol i ddatblygu dysgu proffesiynol ar bob lefel o'r gweithlu.
- Mae'n bwysig datblygu arweinwyr effeithiol a meithrin arweinwyr a darpar benaethiaid ar gyfer y dyfodol.
- Mae'n bwysig cynnal seiat broffesiynol gyda phob aelod o staff er mwyn iddo gael y cyfle i drafod a nodi ei anghenion a'i ddyheadau ar gyfer y dyfodol.

Yn ôl y Pennaeth:

'Mae'r broses uchod yn galluogi arweinwyr i gynllunio dysgu proffesiynol yn effeithiol.'

Camau nesaf

Wrth symud ymlaen mae Ysgol Tregarth am wneud y canlynol.

- Datblygu llwybr gyrfa unigol gyda pob aelod o staff.
- Cynllunio ar gyfer cynnwys rhieni mewn dysgu proffesiynol.
- Datblygu cyfleoedd pellach ar gyfer dysgu proffesiynol mewn diwylliant sy'n cael ei arwain gan ymchwil.
- Datblygu rôl y llywodraethwyr ymhellach yn y broses o gynllunio a monitro effaith dysgu proffesiynol y staff.
- Parhau â siwrne'r ysgol i ddatblygu fel sefydliad sy'n dysgu effeithiol.